Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Jan Woodward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad arolygu: 15 Awst 2023

Dyddiad cyhoeddi: 15 Tachwedd 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhydycar

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-83577-045-0



© Hawlfraint y Goron 2023

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'r arolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 8

- Ansawdd Profiad y Claf .......... 8
- Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......... 11
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth .......... 16

4. Y camau nesaf .......... 19

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .......... 20

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .......... 21

Atodiad C – Cynllun gwella .......... 22

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Jan Woodward, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneirin Bevan ar 15 Awst 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 17 o holiaduron. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom staff yn trin cleifion mewn modd proffesiynol, gydag urddas a pharch. Gwelsom fod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol a theg, er y gwnaethom ganfod y gellid gwneud gwelliannau o ran darparu Cynnig Rhagweithiol dwyieithog addas i'r cleifion. Dywedodd y cleifion wrthym fod y gofal a ddarperir o safon dda.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid cymryd camau ar roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi llwyddo i gael apwyntiad yn rhwydd, ac roedd yr adborth yn canmol y practis, y staff a'r gofal a ddarparwyd iddynt.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y practis yn lân ac yn ddiogel gyda'r cleifion yn cytuno bod y gofal a ddarperir yn ddiogel a bod y practis yn lân ac yn daclus. Gwnaethom ganfod meysydd i'w gwella o ran storio eitemau clinigol, y cyfarpar dadebru brys a'r amserlen ar gyfer archwiliadau rheoli heintiau. Gwelsom fod gwiriadau cadarn ar waith i reoli cyfarpar tân a radiograffi.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis sicrhau bod cyfarpar clinigol brys y gellir ei ddefnyddio fwy nag unwaith yn barod i'w ddefnyddio bob amser
- Dylai'r practis ystyried cynllun a threfniadaeth y ddeintyddfa er mwyn gwella mynediad i'r staff.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y practis yn lân ac yn cael ei gynnal i safon addas
- Roedd y gwiriadau ymarfer tân yn cydymffurfio â'r gofynion ac roedd y cyfarpar tân yn cael ei wirio'n rheolaidd.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod trefniadau gweithio effeithiol rhwng y staff a oedd yn sicrhau gofal o safon addas i'r cleifion. Gwelsom fod y gwiriadau hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer y staff yn gyfredol ond gellid gwella safon ac amlder yr archwiliadau clinigol.

Roedd y staff yn wybodus am y Ddyletswydd Gonestrwydd a gwelsom enghreifftiau o staff yn cael hyfforddiant y tu hwnt i'r gofynion gorfodol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r practis gynyddu ei weithgareddau gwella ansawdd ac archwilio clinigol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn cael hyfforddiant y tu hwnt i'r gofynion gorfodol ac roedd ganddynt set briodol o sgiliau ar gyfer y gofal a ddarperir.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

# Ansawdd Profiad y Claf

## Adborth gan Gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth roeddent wedi'i gael yn 'dda iawn'. Roedd rhai o'r sylwadau a nodwyd gan gleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

> *"Gwasanaeth gwych bob tro gan bob aelod o'r staff!"*
>
> *" Mae'r staff yn gyfeillgar ac yn groesawgar gan wneud i mi deimlo'n gyfforddus ar unwaith"*
>
> *"Rwyf wedi bod yn glaf yn y ddeintyddfa hon ers cryn amser ac rwy'n cael gwasanaeth proffesiynol iawn a gofal gwych bob amser".*

## Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

**Hybu Iechyd**
Gwelsom fod gwybodaeth ar gael i'r cleifion am ganser y geg, dull cywir o frwsio a fflosio ac roedd taflenni dwyieithog ar roi'r gorau i smygu ar gael i'r cleifion fynd â nhw. Roedd y costau ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG yn cael eu harddangos a gwelsom fod rhif Cyngor Deintyddol Cyffredinol y deintydd yn cael ei arddangos, ynghyd â manylion cyswllt y tu allan i oriau ac oriau agor y practis.

Dywedodd pob ymatebydd i holiadur cleifion AGIC fod y staff wedi esbonio eu hiechyd y geg iddynt mewn modd y gallent ei ddeall a'u bod wedi cael cyngor ôl-ofal addas.

**Gofal Urddasol a Pharchus**
Gwelsom staff yn trin cleifion mewn modd proffesiynol, gydag urddas a pharch. Gwelsom staff yn siarad â chleifion dros y ffôn y tu ôl i bared gwydr er mwyn eu galluogi i gael sgyrsiau preifat. Gwelsom ardal aros a oedd i ffwrdd oddi wrth ddesg y dderbynfa gyda'r opsiwn o fynd i swyddfa breifat i fyny'r grisiau am sgyrsiau cyfrinachol.

Yn yr ardal glinigol, gwelsom ffenestr fach ar ddrws y ddeintyddfa a gwydr barugog y tu mewn er mwyn cefnogi preifatrwydd y cleifion. Gwnaethom nodi bod yr holl

staff wedi darllen a llofnodi polisi preifatrwydd, urddas a chyfrinachedd cleifion a oedd yn gynhwysfawr a chyfredol.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymateb yn gyflym i glaf a oedd yn cael pwl meddygol gan sicrhau diogelwch, preifatrwydd ac urddas y claf drwyddi draw.

Dywedodd yr holl ymatebwyr i holiadur AGIC wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch yn ystod eu hapwyntiad, ac roedd yr wyth claf wedi dewis gadael sylw, gan nodi sylwadau cadarnhaol.

**Gofal wedi'i deilwra at yr Unigolyn**
Mewn ymateb i holiadur AGIC, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn cymryd cymaint o ran ag yr hoffent mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Nododd pob claf fod eu hiechyd y geg wedi cael ei esbonio iddynt mewn ffordd y gallent ei deall a bod eu hanes meddygol yn cael ei wirio cyn unrhyw driniaeth. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr wrthym hefyd fod opsiynau triniaeth, gan gynnwys y risgiau, y buddiannau a'r costau, yn cael eu hesbonio mewn ffordd y gallent ei deall.

Ychwanegodd pob un o'r ymatebwyr eu bod wedi cael y wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i wneud penderfyniad am eu gofal deintyddol a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal.

## Amserol

**Gofal Amserol**
Gwelsom fod proses apwyntiadau effeithiol ar waith a oedd yn helpu i ddarparu gofal amserol i gleifion. Dywedodd y staff wrthym fod y ddeintyddfa'n agor yn gynnar ar ddydd Mawrth i alluogi'r cleifion na fyddent yn gallu mynd fel arall i gael gofal amserol, a bod plant yn cael blaenoriaeth ar gyfer apwyntiadau y tu allan i oriau ysgol. Clywsom y byddai'r cleifion yn cael gwybod am unrhyw oedi wrth iddynt gyrraedd, er i'r staff esbonio nad oedd unrhyw glaf yn gorfod aros mwy na 10 munud oherwydd oedi fel arfer. Roedd y system apwyntiadau'n cael ei threfnu er mwyn neilltuo amser addas i drin pob cyflwr unigol ac atal achosion o oedi neu ganslo.

Gwelsom fod apwyntiadau dros y ffôn yn cael eu defnyddio, a oedd wedi newid o apwyntiadau drwy'r post ers dechrau'r pandemig. Dywedodd y staff wrthym fod y gyfradd canslo apwyntiadau wedi gostwng yn sylweddol oherwydd y newid hwn.

Esboniodd y staff eu proses frysbennu ar gyfer apwyntiadau brys a oedd yn cynnwys ymgynghoriad dros y ffôn gyda deintydd ar ôl sesiwn frysbennu gychwynnol dros y ffôn gan staff y dderbynfa. Clywsom y byddai'r cleifion yn cael eu gweld ar yr un diwrnod neu, os na fyddai hynny'n digwydd, y byddent yn cael eu hatgyfeirio i ddwy ddeintyddfa gerllaw er mwyn sicrhau eu bod yn cael gofal amserol.

Dywedodd pob un o'r ymatebwyr i holiadur AGIC eu bod yn ei chael hi'n 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt. Nododd pedwar claf na fyddent yn gwybod sut i gael gofal brys y tu allan i oriau.

## Teg

**Cyfathrebu ac Iaith**
Gwelsom o amgylch y dderbynfa a'r ardaloedd aros bod rhywfaint o lenyddiaeth, fel y rheini a ddarperir gan y bwrdd iechyd, ar gael yn Gymraeg, ond mai yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf wedi'u darparu.

**Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith'.**

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r 'Cynnig Rhagweithiol' a gwelsom fod y bathodyn 'Iaith Gwaith' wedi'i arddangos yn y dderbynfa. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod adnoddau cyfieithu ar-lein ar gael iddynt os byddai unrhyw riant am gyfathrebu yn ei ddewis iaith. Clywsom y gellid darparu dogfennau mewn fformatau gwahanol ar gais.

**Hawliau a Chydraddoldeb**
Gwelsom bolisi cyfle cyfartal ac aflonyddu cynhwysfawr ynghyd â pholisi derbyn cleifion, yr oedd y ddau yn hyrwyddo mynediad cyfartal i driniaeth i bob claf ac roeddent wedi'u diweddaru a'u llofnodi gan bob aelod o'r staff. Roedd y polisi cyfle cyfartal ac aflonyddu yn amlinellu'r dull dim goddefgarwch at wahaniaethu ac aflonyddu a oedd ar waith gan y practis, a gefnogwyd gan yr arwyddion a welsom yn y dderbynfa ynghylch aflonyddu ar staff neu gleifion.

Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym nad oeddent wedi wynebu unrhyw fath o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Nododd y mwyafrif o'r cleifion (14/17) fod yr adeilad yn hygyrch.

Gwelsom yn ffolderi'r staff a'r cleifion fod rheolwyr y practis wedi cyflwyno proses asesu risg i'w staff a'u cleifion yn ystod y pandemig er mwyn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu diogelu rhag niwed o salwch anadlol.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Diogel

**Rheoli Risg**
Gwelsom bractis glân wedi'i gynnal a'i gaw'n dda gydag un ddeintyddfa ar y llawr gwaelod, y gellid ei chyrraedd drwy'r ardal aros. I fyny'r grisiau, gwelsom ystafell ddihalogi a sawl ystafell i storio stoc a chyfarpar clinigol. Gwelsom fod stoc yn cael ei storio o amgylch yr adeilad a gellid gwella hyn er mwyn hwyluso mynediad haws i'r staff.

**Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried lle y caiff cyfarpar clinigol ac anghlinigol ei storio yn y practis.**

Gwelsom amgylchedd a oedd yn galluogi gofal diogel i'r cleifion. Gwelsom fod digon o arwyddion, bod allanfeydd brys wedi'u nodi'n glir a gwelsom fod yr amgylchedd cyffredinol yn y practis yn addas. Fodd bynnag, roedd yr ystafell ddihalogi yn amlwg yn gynhesach na gweddill y practis, a nodwyd y dylid agor y ffenestr a oedd ar gau er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hawyru'n well. Gallai'r tymheredd a'r diffyg awyru beri risg i'r staff sy'n gweithio yn y gofod hwnnw.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella tymheredd yr ystafell ddihalogi a sicrhau ei bod yn cael ei hawyru'n well.**

Gwelsom gyfres gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo iechyd a diogelwch da a nodwyd cydymffurfiaeth briodol ag archwiliadau iechyd a diogelwch dyddiol. Roedd y rhain yn cael eu hategu gan adolygiadau iechyd a diogelwch wythnosol a misol yn y practis. Gwelsom fod system cyfathrebu dros y ffôn a oedd yn gweithio'n dda a chyfleusterau newid addas ar gyfer y staff. Nodwyd bod toiled anabl ar y llawr gwaelod i'r cleifion a thoiled i fyny'r grisiau i'r staff. Roedd y ddau yn lân gyda biniau a chyfleusterau golchi/sychu dwylo.

Roedd pob ardal i gleifion ar y llawr gwaelod a oedd yn sicrhau mynediad i bobl anabl, ac roedd ramp yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y prif ddrws yn ôl yr angen. Gwnaethom nodi bod tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyflogwyr y practis ynghyd â phoster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi'u harddangos ar y wal yn y dderbynfa.

Gwelsom fod asesiad risg tân addas newydd gael adolygiad blynyddol ym mis Gorffennaf. Gwelsom dystiolaeth bod y cyfarpar diogelwch tân yn cael ei wirio'n rheolaidd, bod y larwm tân yn cael ei wirio bob wythnos a bod ymarferion gwagio'r safle yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn, gyda'r un diwethaf wedi'i gofnodi

ym mis Gorffennaf 2023. Gwelsom fod arwyddion diogelwch tân addas a diffoddwyr tân wedi'u lleoli mewn mannau priodol ym mhob rhan o'r adeilad, a bod pob un ohonynt wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd.

**Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi**
Gwelsom fod polisïau addas ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau a dihalogi, a'u bod wedi cael eu hadolygu’n ddiweddar, bod y staff wedi llofnodi eu bod yn eu deall a gwelwyd tystiolaeth eu bod yn cael eu hadolygu'n briodol. Gwelsom fod y practis yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw i safon a oedd yn galluogi iddo gael ei lanhau'n effeithiol a gwelsom dystiolaeth ei fod yn cael ei lanhau'n rheolaidd.

Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC eu bod o'r farn bod y practis yn ‘lân iawn’ a bod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn. Dywedodd un o'r cleifion:

> *“[mae'r practis] bob amser yn lân iawn”*

Roedd y prif ddeintydd wedi'i benodi'n arweinydd atal a rheoli heintiau a dihalogi, ac roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant mewn atal a rheoli heintiau i lefel briodol. Gwelsom ddefnydd addas o Gyfarpar Diogelu Personol yn ystod ein harolygiad. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn deall y cymorth iechyd galwedigaethol a oedd ar gael iddynt, gwelsom dystiolaeth o'r cymorth hwn wedi'i amlinellu mewn polisi addas ar anafiadau yn ymwneud ag offer miniog a gwelsom fod dyfeisiau miniog mwy diogel yn cael eu defnyddio er mwyn osgoi hyn.

Gwelsom dystiolaeth bod profion awtoclaf a diheintydd peiriant golchi yn cael eu cynnal yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05, a ategwyd gan raglenni cynnal a chadw dyddiol a gwiriadau ddwywaith y dydd. Gwnaethom arsylwi'r staff yn rhoi cylchred ddihalogi ar waith a gwelsom fod cyfarpar yn cael ei gludo'n ddiogel o'r ddeintyddfa i'r ystafell ddihalogi.

Gwelsom fod y dyddiadau i nodi pryd y cafodd cyfarpar ei lanhau ar goll ar rai o'r cyfarpar a oedd eisoes wedi'u glanhau a'u selio. Roedd y dyddiadau coll yn golygu na fyddai'r staff yn gallu cadarnhau a oedd y cyfarpar yn lân ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarpar y gellir ei ailddefnyddio'n cael stamp priodol i nodi'r dyddiad yn ôl yr angen.**

Gwelsom fod holl wastraff y practis yn cael ei drin yn briodol, a gwelsom fod contract gwaredu gwastraff boddhaol ar waith. Roedd y broses ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn cael ei rheoli'n addas a gwelsom ffolder COSHH gynhwysfawr.

Ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal bob blwyddyn, yn unol ag WHTM 01-05, a nodwyd mai yn 2020 y cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau archwiliadau rheoli heintiau a dylai ystyried defnyddio adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC.**

**Rheoli Meddyginiaethau**

Gwelsom bolisi rheoli meddyginiaethau a adolygwyd yn ddiweddar a oedd yn cefnogi'r gwaith o oruchwylio meddyginiaethau yn y practis yn effeithiol. Nodwyd bod y meddyginiaethau brys wedi'u storio'n ddiogel ynghyd â phad presgripsiwn y practis.

Roedd gweithdrefn gadarn ar waith i reoli achosion meddygol brys a oedd yn cael ei adolygu'n flynyddol, a'i gefnogi gan swyddog cymorth cyntaf hyfforddedig ac roedd hyfforddiant ar ddadebru cardio-anadlol ar waith i bob aelod o'r staff.

Yn y bag cyfarpar brys, gwelsom fod dyddiad y mwgwd falf bag hunanchwyddo i blant wedi mynd heibio ers mis Medi 2020 a bod y mwgwd falf bag hunanchwyddo i oedolion allan o'i becyn gwreiddiol, a oedd yn golygu na ellid gweld ei ddyddiad. Oherwydd yr effaith bosibl ar ddiogelwch cleifion, aethpwyd i'r afael â'r pryderon hyn yn ystod yr arolygiad.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y cyfarpar brys yn cael ei wirio'n rheolaidd a'i fod ar gael i'w ddefnyddio ar unwaith yn unol â'r gofynion sylfaenol a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.**

**Diogelu Plant ac Oedolion**

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli'r broses o ddiogelu plant ac oedolion. Roedd y polisïau'n cyfeirio at Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, a oedd hefyd wedi'u harddangos yn yr ystafell staff gyda manylion cyfredol i roi gwybod am bryderon. Gwelsom dystiolaeth bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu diweddaru bob blwyddyn a gwelsom mewn cofnodion cyfarfodydd bod diweddariadau i bolisïau'r practis yn cael eu trafod.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwybod at bwy y dylent uwchgyfeirio pryderon a pha gymorth fyddai ar gael iddynt pe baent yn gwneud hynny. Gwelsom yn ffeiliau'r staff bod yr holl staff clinigol yn cael eu hyfforddi i'r lefel ofynnol, ond nodwyd nad oedd staff y dderbynfa wedi cael eu hyfforddi ar ddiogelu er nad oeddent yn cael eu goruchwylio pan oeddent yn dod i gyswllt â chleifion. Gwelsom fod yr arweinydd diogelu wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion hyd at lefel 3.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltied â chleifion heb oruchwyliaeth yn cael hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant ac oedolion hyd at lefel 1 o leiaf.**

**Rheoli Dyfeisiau a Chyfarpar Meddygol**
Gwelsom fod y cyfarpar clinigol yn ddiogel ac mewn cyflwr da, ac roedd y cofnodion yn dangos amserlen cynnal a chadw briodol. Roedd cofnodion y staff yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cael ei hyfforddi ar ddefnyddio'r cyfarpar clinigol yn ddiogel, a gwelsom fod y cyfarpar yn cael ei ddefnyddio'n gywir a chawsom gadarnhad gan y staff eu bod yn gallu defnyddio'r cyfarpar yn hyderus. Gwelsom fod cynlluniau wrth gefn yn amlinellu'r gweithdrefnau adrodd a'r trefniadau amgen ar gyfer darparu gofal amserol i gleifion.

Roedd y ffolder diogelu rhag ymbelydredd yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol am sut i reoli cyfarpar pelydr-X yn effeithiol, gan gynnwys polisi a gweithdrefn a ddiweddarwyd yn ddiweddar ynghyd â chynghorydd diogelu rhag ymbelydredd penodol ac asesiad risg addas. Roedd y rheolau lleol ar gael yn rhwydd i'r staff ar y wal y tu allan i ddrws y ddeintyddfa. Gwelsom fod plât ffosffor y gellir ei ailddefnyddio wedi'i ddifrodi a thynnwyd sylw'r goruchwylydd ymbelydredd at hyn a chafodd y mater ei ddatrys yn ystod yr arolygiad.

O'r cofnodion a welsom, gwelwyd mai dim ond pan oedd angen roedd y staff yn defnyddio pelydrau-X fel sylfaen dystiolaeth briodol i drin cleifion. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio asesiadau risg i gefnogi'r gwaith o drin cleifion yn ddiogel.

Gwelsom dystiolaeth bod gweithgareddau graddio a gwella ansawdd pelydr-X addas yn cael eu cynnal.

## Effeithiol

**Gofal Effeithiol**
Gwelsom fod y practis yn asesu cleifion ac yn rhoi diagnosis iddynt yn ddiogel ac yn eu trin yn unol â'r angen clinigol gan ddilyn canllawiau proffesiynol, rheoleiddiol a statudol.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff clinigol yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau ac roeddent yn gwybod ble i geisio cyngor proffesiynol perthnasol, pe bai angen.

Gwelsom restrau clinigol fel y Safonau Diogelwch Lleol ar gyfer Triniaethau Mewnwthiol yn cael eu defnyddio.

**Cofnodion y Cleifion**
Gwnaethom adolygu cofnodion 10 claf i gyd a gwelsom fod y broses o gadw cofnodion clinigol yn cael ei chynnal i safon foddhaol. Roedd y practis yn defnyddio system bapur ar gyfer cofnodion cleifion ac roedd cabinet dan glo yn cael ei ddefnyddio yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data. Gwnaethom nodi polisi rheoli cofnodion cynhwysfawr a adolygwyd yn ddiweddar.

Gwelsom fod radiograffau cleifion wedi'u cymryd a'u storio'n briodol, er ei bod yn anodd croeswirio'r cofnodion â chofnodion papur y cleifion. Roedd achosion pan nad oedd cyfiawnhad, amlder a safbwyntiau'r cleifion ar radiograffau wedi'u hystyried na'u cofnodi. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yn y cofnodion a welsom.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod unrhyw driniaeth sy'n ymwneud ag ymbelydredd yn cael ei chofnodi'n briodol.**

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.**

Gwelsom arferion da mewn perthynas â chofnodi cydsyniad cleifion, esboniad o'r opsiynau triniaeth a oedd ar gael, ac o'r triniaethau a oedd yn cael eu rhoi. Cefnogwyd hyn gan yr hyn a ddywedodd y cleifion wrthym mewn ymateb i holiadur cleifion AGIC. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi.**

## Effeithlon

**Effeithlon**
Gwelsom fod un ymarferydd deintyddol yn darparu gwasanaethau yn unol ag anghenion clinigol y cleifion mewn safle addas. Gelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau eraill yn briodol a bod yr atgyfeiriadau hyn yn cael eu monitro gan staff y practis.

Roedd y cleifion yn cael mynediad amserol i ofal drwy broses frysbennu drylwyr i flaenoriaethu'r rheini sydd â'r angen mwyaf brys. Cadarnhaodd yr holl gleifion ei bod yn hawdd cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a chlywsom glaf yn cael proses frysbennu a blaenoriaethu addas dros y ffôn.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Arweinyddiaeth

**Llywodraethu ac Arweinyddiaeth**
Roedd y practis yn cael ei oruchwylio gan ddeintydd arwain, sef perchennog y practis. Gwelsom fod trefniadau arweinyddiaeth addas ar waith a oedd yn cefnogi'r broses o redeg y practis yn effeithiol. Roedd y practis wedi defnyddio'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth yn 2019 i gefnogi datblygiad y tîm.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd tîm ffurfiol bob tri mis, lle'r oedd y staff yn trafod materion fel iechyd a diogelwch, hyfforddiant staff ac arolygon cleifion.

Gwelsom ffolder y gellid dod o hyd iddi'n rhwydd a oedd yn cynnwys yr holl bolisïau staff ac roedd y staff wedi llofnodi eu bod wedi'u darllen a'u deall, gydag unrhyw bolisïau newydd neu bolisïau a oedd wedi'u diweddaru yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd tîm.

## Y gweithlu

**Gweithlu Medrus a Galluog**
Roedd gwaith y practis yn cael ei gynnal gan un deintydd, dwy nyrs a derbynnydd. Gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol ac enghreifftiau o arferion da lle'r oedd y staff wedi cwblhau cyrsiau perthnasol eraill a oedd yn ategu eu rolau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan eu rheolwr i ddysgu a'u bod yn cael yr amser i wneud hynny.

Dywedodd y staff wrthym y byddent yn teimlo'n gyfforddus yn codi pryder a'u bod yn gwybod sut i wneud hynny. Gwnaethom ddarllen polisi chwythu'r chwiban cynhwysfawr a ddiweddarwyd yn ddiweddar a oedd yn cadarnhau'r hyn a ddywedodd y staff wrthym ynghylch sut y byddent yn codi pryderon.

Gwnaethom adolygu ffeiliau pedwar aelod o'r staff a gwelsom gydymffurfiaeth â gwiriadau hanes cyflogaeth, geirdaon a gwiriadau fetio manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Er na chafwyd unrhyw benodiadau ers sawl blwyddyn, roedd y practis yn dal i gynnal polisi recriwtio wedi'i ddiweddaru. Roedd y deintydd arweiniol yn goruchwylio'r broses o gydymffurfio â chofrestriadau staff proffesiynol ac yswiriant drwy restr wirio addas.

Gwelsom hefyd fod pob aelod o'r staff yn cael trafodaethau rheolaidd wedi'u dogfennu â'u rheolwr ynghylch eu perfformiad a'u datblygiad, gyda'r diweddaraf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2023.

## Diwylliant

**Ymgysylltu â Phobl, Adborth a Dysgu**
Gwelsom fod proses addas ar waith i geisio adborth gan gleifion ac ymateb iddo. Gwelsom fod ffurflenni adborth cleifion yn cael eu defnyddio yn y dderbynfa, a gwelsom mewn cofnodion cyfarfodydd fod y staff yn trafod yr adborth a gafwyd gan y cleifion yn rheolaidd.

Er nad oedd darnau diweddar o adborth i'w adolygu gennym, clywsom y byddai unrhyw newidiadau o ganlyniad i adborth gan gleifion yn cael ei rannu â'r cleifion. Gwelsom fod y polisi cwynion wedi'i ddiweddaru a'i fod yn gadarn gyda'r manylion yn cael eu harddangos yn ardal y dderbynfa i'r cleifion.

Gwelsom fod proses Dyletswydd Gonestrwydd addas ar waith ac yn ein sgyrsiau â'r staff gwnaethant nodi'r Ddyletswydd yn fanwl, gan ddisgrifio eu bod yn teimlo'n hyderus i godi pryderon pan fydd rhywbeth yn mynd o'i le â gofal cleifion. Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff wedi cael hyfforddiant gyda thystiolaeth yn dangos y byddai gweddill y staff yn ei gael yn y dyfodol.

## Gwybodaeth

**Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol**
Gwelsom fod polisi addas ar waith i reoli gwybodaeth yn y practis a gwelsom fod system briodol ar waith ar gyfer codi ac uwchgyfeirio digwyddiadau diogelwch cleifion mewn modd amserol.

## Dysgu, Gwella ac Ymchwil

**Gweithgareddau Gwella Ansawdd**
Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau gwella ansawdd rheolaidd ar gyfer radiograffau a dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud gwaith adolygu cymheiriaid â dau bractis gerllaw. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd archwiliad rhoi'r gorau i smygu wedi'i gynnal ers 2014 ac nad oedd archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau wedi'i gynnal ers 2012. Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cynnal ar gofnodion cleifion.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC ynghylch y modd y bydd yn cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd ac archwiliadau clinigol, fel y rhai sydd ar gael drwy AaGIC.**

## Dull Systemau Cyfan

**Gweithio mewn Partneriaeth a Datblygu**

Esboniodd y staff fod ganddynt gydberthnasau gwaith â phartneriaid gofal iechyd eraill, gan gynnwys practisau meddyg teulu lleol. Amlinellodd y staff eu bod wedi dechrau gweithio gyda phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus lleol yn ddiweddar i hyrwyddo ansawdd y gwasanaeth ar gyfer cleifion a'u diogelwch, a gwnaethant nodi eu bod wedi meithrin cydberthnasau newydd arbennig o gadarnhaol â fferyllfeydd lleol o ganlyniad i hynny. Gwelsom fod proses addas ar waith ar gyfer atgyfeirio at wasanaethau eraill a bod proses ar waith i fonitro'r atgyfeiriadau a wnaed.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Roedd dyddiad y mwgwd falf bag hunanchwyddo i blant wedi dod i ben ym mis Medi 2020**<br><br>**Nid oedd y mwgwd falf bag hunanchwyddo i oedolion yn ei becyn gwreiddiol, sy'n golygu nad oedd dyddiad dod i ben wedi'i arddangos.** | Pe bai argyfwng meddygol, gallai hyn beri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion. | Cafodd hyn ei uwchgyfeirio i'r staff yn ystod yr arolygiad. | Archebwyd yr holl eitemau, a chawsant eu dosbarthu y diwrnod gwaith nesaf. |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Jan Woodward

## Dyddiad yr arolygiad: 15 Awst 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch heblaw am y rheini yr ymdriniwyd â nhw yn atodiad A** | | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** **Practis Deintyddol Jan Woodward**

**Dyddiad yr arolygiad:** **15 Awst 2023**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwelsom o amgylch y dderbynfa a'r ardaloedd aros bod rhywfaint o lenyddiaeth, fel y rheini a ddarperir gan y bwrdd iechyd, ar gael yn Gymraeg, ond mai yn Saesneg yr oedd y rhan fwyaf wedi'u darparu.** | Mae'n ofynnol i'r rheolwr cofrestredig roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i roi'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar waith. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, Adran 13 (1) (a) | Cynhelir ymchwiliad o'r "Cynnig Rhagweithiol" a chaiff ei roi ar waith yn y practis. | Jan Woodward | O fewn 6 mis. |
| **Gwelsom fod stoc yn cael ei storio o amgylch yr adeilad a gellid gwella hyn er mwyn hwyluso mynediad haws i'r staff.** | Dylai'r rheolwr cofrestredig ystyried lle y caiff cyfarpar clinigol ac anghlinigol ei storio yn y practis. | Adran 22 (2) (c) | Mae'r ystafell ddihalogi wedi'i had-drefnu er mwyn sicrhau bod yr holl ddeunydd a chyfarpar clinigol mewn un lle. Mae pob | Jan Woodward a Christina Davies. | Ar unwaith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | cwpwrdd wedi'i labelu â'r cynnwys a dylai hyn sicrhau mynediad rhwydd i bob aelod o'r staff. | | |
| **Gwelsom fod yr ystafell ddihalogi yn amlwg yn gynhesach na gweddill y practis, a nodwyd y dylid agor y ffenestr a oedd ar gau er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei hawyru'n well. Gallai'r tymheredd a'r diffyg awyru beri risg i'r staff sy'n gweithio yn y gofod hwnnw.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wella tymheredd yr ystafell ddihalogi a sicrhau ei bod yn cael ei hawyru'n well. | Adran 22 (2) (a) | Caiff y ffenestr ei gadael ar agor pan fydd yr ystafell ddihalogi'n cael ei defnyddio. | Jan Woodward | Ar unwaith. |
| **Gwelsom fod y dyddiadau i nodi pryd y cafodd cyfarpar ei lanhau ar goll ar rai o'r cyfarpar a oedd wedi'u glanhau a'u selio. Roedd y dyddiadau coll yn golygu na fyddai'r staff yn gallu cadarnhau a** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarpar y gellir ei ailddefnyddio'n cael stamp priodol i nodi'r dyddiad yn ôl yr angen. | Adran 13 (3) (b) | Cyflwyno gwiriadau wythnosol o'r dyddiadau. | Jan Woodward | Ar unwaith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **oedd y cyfarpar yn lân ac yn ddiogel i'w ddefnyddio.** | | | | | |
| **Ni welsom dystiolaeth bod archwiliadau rheoli heintiau yn cael eu cynnal bob blwyddyn, yn unol ag WHTM 01-05, a nodwyd mai yn 2020 y cynhaliwyd yr archwiliad diwethaf.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig gwblhau archwiliadau rheoli heintiau bob blwyddyn a dylai ystyried defnyddio adnodd archwilio Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC). | Adran 16 | Caiff archwiliad WHTM 01-05 ei gynnal. | Jan Woodward | O fewn 1 mis. |
| **Gwelsom nad oedd staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu er nad oeddent yn cael eu goruchwylio wrth ddod i gysylltied â chleifion. Gwelsom fod yr arweinydd diogelu wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant ac oedolion hyd at lefel 3.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o staff sy'n dod i gysylltied â chleifion heb oruchwyliaeth yn cael hyfforddiant priodol ar amddiffyn plant ac oedolion hyd at lefel 1 o leiaf. | Adran 14 (1) (b) | Mae Jayne Amos (derbynnydd) bellach wedi cael hyfforddiant y gellir ei wirio hyd at Lefel 1 mewn diogelu oedolion a phlant. | Jan Woodward | 13/09/2023 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Roedd achosion pan nad oedd cyfiawnhad, amlder a safbwyntiau'r cleifion ar radiograffau wedi'u hystyried na'u cofnodi.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod triniaeth sy'n ymwneud ag ymbelydredd yn cael ei chofnodi'n briodol. | Adran 20 (1) (a) | Byddwn yn cynnwys yr holl gofnodion ar gyfer cyfiawnhau cymryd radiograffau yn nodiadau'r cleifion. | Jan Woodward | Ar unwaith. |
| **Gwnaethom nodi nad oedd profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi fel mater o drefn yn y cofnodion a welsom.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod profion sgrinio canser y geg yn cael eu cofnodi fel mater o drefn. | Adran 20 (1) (a) | Rydym yn cofnodi profion archwilio meinweoedd meddal y tu allan a'r tu mewn i'r geg. Fodd bynnag, nid ydym yn sôn yn benodol am ganser y geg. Caiff geiriad y profion archwilio meinweoedd meddal ei addasu i gynnwys canser y geg. | Jan Woodward | Ar unwaith. |
| **Gwelsom nad oedd dewis iaith y cleifion ac unrhyw gamau a gymerwyd mewn ymateb i'r dewis hwn yn cael eu cofnodi fel mater o drefn.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff anghenion iaith a chyfathrebu cleifion eu cofnodi. | Adran 13 (1) (a) | Caiff y dewisiadau iaith a chyfathrebu eu cynnwys yng nghofnodion y cleifion. | Jan Woodward | Ar unwaith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwnaethom nodi nad oedd archwiliad rhoi'r gorau i smygu wedi'i gynnal ers 2014 ac nad oedd archwiliad rhagnodi gwrthfiotigau wedi'i gynnal ers 2012. Gwelsom hefyd nad oedd unrhyw archwiliadau wedi'u cynnal ar gofnodion cleifion.** | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi sicrwydd i AGIC ynghylch y modd y bydd yn cynnal mwy o weithgareddau gwella ansawdd ac archwiliadau clinigol, fel y rhai sydd ar gael drwy AaGIC. | Adran 16 (1) (a) | Caiff archwiliad o gofnodion cleifion ei gynnal bob blwyddyn.<br><br>Caiff adolygiad o archwiliadau gofynnol eu cynnal a'u diweddaru gan ddefnyddio adnoddau AaGIC. | Jan Woodward | O fewn y chwe mis nesaf. |

Rhaid i’r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Jan Woodward**

**Swydd: Perchennog y Practis**

**Dyddiad: 1 Hydref 2023**